Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **6 Ebrill 2016** | |
| **Amser:** | **10:00 – 10:20** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 21/03/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 586** | **Y CA i roi ystadegau ar gyfer llythyrau sy'n cynnig cyrsiau traffig addysgiadol i'r CHTh, a chyfleu diolch y CHTh i'r rhai sy'n gysylltiedig â gwneud y gwelliannau hynny** | **Cwblhawyd o fewn diweddariad CA** |
| **PB 587** | **Yr heddlu i ddarparu adroddiad ar gyfnodau gwarant a chostau cynnal a chadw disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfer Gorsafoedd Heddlu Symudol** | **Ar waith** |
| **PB 588** | **Y CHTh i gysylltu â'r Prif Gwnstabl Farrar i drafod y swydd DBG Cymru Gyfan** | **Ar waith** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

**Cymeradwyo cofnodion Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu**

Yn absenoldeb Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, cytunwyd bod cofnodion cyfarfod mis Mawrth yn gofnod cywir. Cytunwyd y byddai angen adolygu cynnydd yn erbyn camau gweithredu o gyfarfod mis Mawrth ym mis Mai.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhoddodd y PG ddiweddariad ar y prif ddigwyddiadau gweithredol, gan gynnwys swyddog prawf a oedd wedi'i daro gan gar wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Roedd y swyddog yn yr ysbyty, ond disgwylir y bydd yn gwella'n llwyr.

Roedd yr heddlu dal yn cofnodi nifer uchel o wrthdrawiadau traffig y ffyrdd, gyda ffigurau'n debyg i ffigurau'r un cyfnod y llynedd. Hyd yn hyn, bu 9 digwyddiad angheuol, gan arwain at 12 marwolaeth, o gymharu â 7 digwyddiad a achosodd 10 marwolaeth ar gyfer yr un cyfnod yn 2015. Dywedodd y PG bod gwaith rhagweithiol yn parhau, a bod yr ymgyrch dargedig a gynhelir ledled Cymru, Ymgyrch Dragon's Claw, yn weithredol ddydd Llun y Pasg, gyda HDP yn adrodd bod dros 200 o gerbydau wedi'u stopio, 137 prawf llygaid wedi'u cyflawni, a nifer o adroddiadau troseddau traffig wedi'u cwblhau.

Dilynwyd cerbyd a oedd wedi methu â stopio drwy Cross Hands i'r M4, gan arwain at gerbydau o HDP a Heddlu De Cymru yn cwblhau erlid tactegol a chad-drefnu cyfyngiant. Arestiwyd y drwgdybiedig yn llwyddiannus.

Arweiniodd gwaith da cwnstabliaid prawf yn Aberystwyth at arestio unigolyn ar amheuaeth o ladrad arfog.

Adroddodd y PG am ddedfrydau arwyddocaol. Roedd dau filwr wedi'u dedfrydu i 7 mlynedd ac 8 mlynedd 8 mis o garchar am ymosod ar fechgyn yn eu harddegau. Roedd troseddwr a oedd wedi dwyn wrth unigolyn 77 oed wedi'i ddedfrydu i 10 mlynedd o garchar.

Daethpwyd o hyd i aelod o griw treillong wedi boddi yn Aberdaugleddau. Mae'r ymchwiliad yn parhau, ond amheuir mai damwain drasig ydoedd.

**Diweddariad Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

***Cadw o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl***

Ceisiodd DGHTh eglurhad ynghylch diben cwblhau dwy ffurflen mewn perthynas â chadw o dan adran 136. Dywedodd y PG bod un yn ymwneud ag iechyd a'i bod yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r Concordat Iechyd Meddwl, a bod y llall yn rhan o gofnod data blynyddol y Swyddfa Gartref. Roedd Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r dyblygu posibl ac yn ystyried cyfleoedd ar gyfer ymgorffori'r manylion sydd angen ar gyfer cofnod data blynyddol y Swyddfa Gartref o fewn ei ffurflen. Cytunwyd y byddai MMS yn anfon nodyn at y DGHTh er mwyn egluro hyn.

**Cam Gweithredu: MMS i anfon eglurhad at y DGHTh ar y cofnodion sydd angen ar ôl cadw o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

**Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau**

Dywedodd y CA bod archwiliad cydymffurfiaeth ystadau ar waith ar hyn o bryd. Byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dangosodd y CA gyfres o graffiau sy'n arddangos yr ystadegau ar gyfer prosesu llythyrau sy'n cynnig cyrsiau traffig addysgiadol. Roedd y graffiau'n dangos bod y rhan fwyaf o lythyrau'n cael eu prosesu o fewn y dyddiad targed o 14 diwrnod erbyn hyn. Nododd DGHTh y graffiau ac adleisiodd nodyn o ddiolch blaenorol CHTh i'r rhai a oedd yn gysylltiedig â'r gwelliannau a oedd wedi arwain at wasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon.

**Unrhyw fusnes arall**

***Gohebiaeth a dderbyniwyd gan HD Evans***

Nodwyd yr ohebiaeth ac fe'i cyflwynwyd i'r Heddlu ar gyfer ymateb.

***Gorchymyn Diogelu Man Cyhoeddus Canol Tref y Trallwng***

Trafodwyd y mater parhaus a godwyd gan Gyngor Tref y Trallwng mewn perthynas ag yfed alcohol yng nghanol y dref yn dilyn gohebiaeth a dderbyniwyd gan y CHTh. Sicrhaodd y PG fod y dref yn ddiogel, a bod y tîm plismona bro'n gweithio gyda'r Cyngor Tref er mwyn cynnal trefn. Teimlwyd nad oedd Gorchymyn Diogelu Man Cyhoeddus yn briodol yn yr achos hwn gan fod gorfodi eisoes yn digwydd. Dywedodd DGHTh y byddai SCHTh yn anfon ymateb yn unol â hynny.

**Cam Gweithredu: SCHTh i ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â Chanol Tref y Trallwng**

***Erthygl yn y Police Oracle mewn perthynas â diwrnodau i ffwrdd wedi'u canslo***

Cododd DGHTh y ffaith bod HDP, yn ôl y sôn, wedi methu ag ymateb i gais am wybodaeth gan gyhoeddiad y Police Oracle mewn perthynas â nifer y diwrnodau i ffwrdd a oedd wedi'u canslo ar gyfer swyddogion. Eglurodd y PG bod ymateb wedi'i ddarparu a oedd yn dweud nad oedd HDP yn dal y wybodaeth oherwydd mae diwrnodau gorffwys sy'n cael eu canslo'n cael eu haildrefnu'n syth gan ddefnyddio'r feddalwedd System Rheoli Oriau Gwaith. Byddai crynodeb o'r ymateb a gyflwynwyd yn cael ei roi i'r DGHTh er gwybodaeth.

**Cam Gweithredu: MMS i roi crynodeb i'r DGHTh o'r ymateb a gyflwynwyd i'r Police Oracle mewn perthynas â diwrnodau i ffwrdd sydd wedi'u canslo**

***Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain***

Nodwyd yr ohebiaeth, gyda'r PG yn dweud y byddai pob swyddog cymwys wedi derbyn copi.

Gofynnodd y DGHTh am ddiweddariad ynghylch y cynnydd o ran trefniadau ar gyfer cyfarfod â Ffermwyr Sir Drefaldwyn. Dywedodd MMS bod y cyfarfod wedi'i drefnu.

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/04/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 589** | **MMS i anfon eglurhad at y DGHTh ar y cofnodion sydd angen ar ôl cadw o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl** | **MMS** |
| **PB 590** | **SCHTh i ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â Chanol Tref y Trallwng** | **DGHTh** |
| **PB 591** | **MMS i roi crynodeb i'r DGHTh o'r ymateb a gyflwynwyd i'r Police Oracle mewn perthynas â diwrnodau i ffwrdd sydd wedi'u canslo** | **MMS** |